# 15. Y Bugail Blin

**CYMERIADAU**

- LLAIS 1
- LLAIS 2
- CORWS
- ANGEL
- OBED
- JOSEIA
- JORAM

Llais 1: Bugail oedd Joram yn byw mewn tŷ y tu allan i bentref Bethlehem. Byw ar ei ben ei hun wnâi Joram.

Llais 2: Does dim rhyfedd, hen un blin oedd o!

Corws: Blin, blin, blin …
Grwgnach, grwgnach, grwgnach …
Cwyno, cwyno, cwyno …

Llais 1: Yn wir, roedd yn cwyno am bopeth, popeth dan haul.

Llais 2: Un noson, roedd hi bron yn amser i Joram fynd i weithio.

Corws: O! gwaith, gwaith, gwaith …
Defaid, defaid, defaid …
Diflas, diflas, diflas …
O! gwaith, gwaith, gwaith …
Defaid, defaid, defaid …
Diflas, diflas, diflas …

Llais 1: Grwgnach a thuchan wnâi Joram. Ond doedd neb yn gwrando.

Llais 2: Fry ar y bryniau, roedd bugeiliaid eraill wrth eu gwaith. Wrth weld Joram, meddai Obed wrth Joseia: ‘Edrych ar Joram, yn flin fel tincer ac yn tuchan fel trol!’

Corws: Blin, blin, blin …
Tuchan, tuchan, tuchan …
Defaid, defaid, defaid …
Blin, blin, blin …
Tuchan, tuchan, tuchan …
Defaid, defaid, defaid …

Llais 1: Roedd hi’n noson fel pob noson arall. Roedd y bugeiliaid yn brysur yn gofalu am eu praidd ac yn cadw’r tân ynghynn.

Llais 2: Roedden nhw’n sgwrsio’n ddi-baid. Ymhen tipyn, roedd y bugail blin wedi cael llond bol ar bawb a phopeth.

| | |
|---|---|
| Corws: | Rwdlan, rwdlan, rwdlan ...<br>Blin, blin, blin ...<br>Rwdlan, rwdlan, rwdlan ...<br>Blin, blin, blin ... |
| Llais 1: | Chwyrnai Joram, ac yn sydyn, cafodd ei ddeffro. Yn gysglyd, gan duchan, roedd golau llachar yn ei ddallu. Caeodd ei lygaid a'u rhwbio i gael gweld yn iawn. |
| Llais 2: | Roedd y golau'n dal yno. 'O! golau, golau, gormod o olau,' dywedodd Joram, ac yna yng nghanol y golau, daeth angel. Angel go iawn! |
| Llais 1: | Yn sydyn, doedd Joram ddim yn teimlo'n ddewr iawn; aeth yntau ar ei gwrcwd ar y ddaear a chuddio ei wyneb yn ei glogyn. |
| Angel: | Peidiwch ag ofni, wna i ddim niwed i chi. |
| Llais 1: | Yr angel oedd yno! |
| Angel: | Gabriel ydi fy enw i, ac mae Duw wedi fy anfon atoch gyda newyddion da. Heno yn y ddinas hon, mae yna faban wedi'i eni. |
| Llais 2: | 'Pa ots am hynny,' meddai Joram, gan rwgnach. |
| Corws: | Grwgnach, grwgnach, grwgnach ...<br>Tuchan, tuchan, tuchan ...<br>Blin, blin, blin ...<br>Grwgnach, grwgnach, grwgnach ...<br>Tuchan, tuchan, tuchan ...<br>Blin, blin, blin ...<br>Un babi drewllyd arall yn y byd i gadw stŵr! |
| Angel: | Babi arbennig iawn yw hwn, eich Brenin a'ch Gwaredwr yw'r babi yma – Crist yr Arglwydd. |
| Llais 1: | Camodd Joram yn ôl yn syfrdan pan glywodd hyn gan eistedd yn swrth ar un o'i ddefaid. |
| Corws: | Meeeeeeee, meeee, meeee ...<br>Tuchan, tuchan, tuchan ...<br>Blin, blin, blin ...<br>Tuchan, tuchan, tuchan ...<br>Blin, blin, blin ... |
| Obed a Joseia: | Bendigedig! |
| Obed: | Gadewch i ni fynd i Fethlehem. |
| Joseia: | Tyrd yn dy flaen, Joram. |
| Corws: | Cwyno, cwyno, cwyno ...<br>Blin, blin, blin ... |
| Llais 2: | Ond doedd neb ar ôl i wrando arno. Penderfynodd ddilyn y lleill. |

| | |
|---|---|
| Llais 1: | O'r diwedd, cyrhaeddodd Joram y lleill, wedi colli ei wynt yn lân ac yn llawn ffwdan. |
| Joram: | Ond beth am y defaid diflas? |
| Corws: | Ffwdan, ffwdan, ffwdan …<br>Blin, blin, blin …<br>Ffwdan, ffwdan, ffwdan …<br>Blin, blin, blin … |
| Joseia: | Tyrd Joram, rydan ni'n mynd i weld y Brenin. Does dim amser i din droi! |
| Joram: | Tin droi! Tin droi! |
| Llais 1: | … bloeddiodd Joram. |
| Joram: | Rydw i newydd redeg ar draws dau gae, llamu dros bymtheg o ddefaid a dringo pedwar clawdd, a ti'n dweud wrtha i am beidio tin droi! Beth bynnag, pwy glywodd am faban mewn preseb erioed. Gwirion, gwirion bost! Bocs pren i ddal gwellt ydy preseb, nid i ddal babanod. Twt lol a chlonc. |
| Llais 1: | … meddai Joram yn flin. |
| Obed: | Tyrd yn dy flaen, y bwbach blin, paid â thaflu dŵr oer ar bopeth. |
| Llais 1: | … chwarddodd Obed. |
| Llais 2: | Doedd hi ddim yn anodd canfod y preseb. Roedd seren lachar yn disgleirio yn yr awyr uwchben y stabl! Rhoddodd y drws wich uchel wrth i Joseia ei agor. Edrychodd gŵr a gwraig arnyn nhw gan wenu a'u gwahodd i mewn. Yn drwsgl, daeth y bugeiliaid i'r stabl, heibio asyn, buwch a dwy afr fusneslyd. |
| Llais 1: | Yn ddistaw bach, dangosodd Joseff lle gorweddai'r baban Iesu. Y funud y gwelodd y bugeiliaid wyneb y baban yn gorwedd yn y preseb, dyma nhw'n syrthio ar eu gliniau i'w addoli. |
| Llais 2: | Crio wnaeth Joram wrth iddo benlinio ger y baban yn y gwellt. Rhoddodd Obed ei fraich amdano, ond gwyddai mai dagrau o hapusrwydd oedd dagrau Joram. Gwenodd Joram, Obed a Joseia ar ei gilydd wrth adael y stabl! |
| Llais 1: | Brysio'n ôl i'r bryniau at eu defaid a wnaethon nhw gan ganu'n llawen i Dduw am bopeth a welson nhw. Joram oedd yr un yn arwain, gyda'i ben yn uchel a'i gân yn cyrraedd y sêr. Gallai hyd yn oed y defaid ei glywed yn dod! |
| Obed: | Wyddwn i 'rioed fod Joram yn gallu canu! |
| Joseia: | Wyddai'r defaid ddim chwaith! [*Chwerthin mawr!*] |
| Corws: | Meee, meee, meee … |

**DIWEDD**

Hawlfraint **Cyhoeddiadau'r Gair** www.ysgolsul.com ● **Beth wnawn ni'r Nadolig hwn?** – Llu o syniadau ar gyfer dathlu geni Crist!